CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CHWEFROR 17, 2015

Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Brithdir
Nos Fawrth, Chwefror 17, 2015 am 7:30 o'r gloch.

Presennol Cynghorwyr: Peredur Jenkins (Cadeirydd), Huw A. Evans, Mordaf Roberts, Geralllt Griffith, Rhun Prys Jones, Llion Rh. Williams, Meurig Ashton. Hefyd Henry M. Edwards.

1.Croeso'r Cadeirydd

Croesawyd pawb oedd yn bresennol.

2. Ymddiheuriadau: Emlyn Roberts a Geraint Evans.

3. Datgan diddordeb.

Roedd Peredur Jenkins a Huw A. Evans yn datgan diddordeb ynglŷn â adolygu ysgolion cynradd.

4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Ionawr 20, 2015

Cynigwyd ac eiliwyd fod y cofnodion yn gywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion Ionawr 20, 2015

Nid oedd materion yn codi.

6. Adroddiad Cynghorydd Peredur Jenkins

a. Anfonwyd llythyr (2/2/2015) i Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Cyngor Gwynedd yn gofyn am y ffordd o'r A494 i Ysgol Hengwrt Hall i gael ei roi ar restr flaenoriaeth o ran graeanu oherwydd pwysigrwydd yr ysgol i'r ardal.

Llythyr ateb (9/2/2015) yn rhoi gwybod maent am asesu'r sefyllfa.

b. Mae Cyngor Gwynedd am godi prisiau parcio car yn llefydd parcio'r Sir.

7. Gohebiaeth

a. Llythyr (25 Ionawr 2015) oddi wrth Pwyllgor Apel Cylch Dolgellau. Maent angen cymorth ariannol tuag at Sioe Frenhinol Cymru. Sir nawdd 2016 Meirionnydd.

b. Llythyr (2/2/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd yn y Pafiliwn Criced, Y Marian, Dolgellau ar 11 Chwefror am 7:00yh. Amgáu mae Agenda, a Chofnodion cyfarfod y pwyllgor ar 19 Tachwedd, 2014.

c. Llythyr (10/02/2015) oddi wrth Elfed ap Gomer yn rhoi gwybod bod gwaith i greu gwefan i'r Cyngor wedi ei gwblhau. Enw'r wefan yw www.cyngorllanfachreth.cymru

Penderfynwyd derbyn cynnwys y llythyr, ac anfon y wybodaeth ymlaen i Cyngor Gwynedd.

ch. Chwe chopi o 'Cynllun Cyflogaeth Meirionnydd - Newyddlen Gaeaf 2014/15' oddi wrth Adran Economi a Chymuned, Cyngor Gwynedd.

d. Llythyr (14/2/2015) oddi wrth Eisteddfod Gadeiriol Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

dd. Llythyr (16/2/2015) oddi wrth Neuadd Bentref Llanfachreth. Maent angen cymorth ariannol.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Copi o Gorchymyn Gwarchod Coed dros dro a gyflwynwyd ar dir Coedlan gogyfer Eglwys Sant Marc, Brithdir. Mae hyn yn gwahardd unrhyw un rhag torri coed heb ganiatâd yr Awdurdod. Mae'r goedlan yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i fwynderau gwledig o'r Parc ac yn gynefin gwlyptirol gwerthfawr iawn a chysylltedd ar gyfer bywyd gwyllt. Bydd y gorchymyn yn parhau am chwe mis. Bydd yr Awdurdod yn ystyried dod a'r gorchymyn yn barhaol. Os mae gwrthwynebiad i'r gorchymyn maent eisiau gwybod cyn Mawrth 20, 2015.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Awdurdod bod teimladau cryf ymysg yr aelodau yn gwrthwynebu rhoi cefnogaeth i'r gorchymyn. Y rheswm am hyn yw does dim o werth yn tyfu ar y tir dim ond chwyn. Ar un adeg roedd gwartheg yn arfer pori'r tir ac yn cadw'r tyfiant i lawr, a hefyd roedd trigolion Brithdir yn hel gwair ar y darn tir. Ers y dyddiau hynny mae safon y tir wedi dirywio. Os byddant yn rhoi Gorchymyn Gwarchod Coed ar y Goedlan mi fyddan yn dibrisio gorchymyn o'r fath yn fawr iawn, a ddim yn rhoi statws Gorchymyn Gwarchod Coed mewn llefydd sydd yn wirioneddol deilwng o'r statws.

b. Cais cynllunio NP5/54/40A. Adeiladu tŷ tyrbin newydd cysylltiad â chynllun trydan dŵr presennol. The Old Creamery, Rhydymain.

Penderfynwyd gwrthod y cais oherwydd mae lleoliad y tyrbin yn amharu ar fwynderau cymdogion. Hefyd, tydi'r map yn dangos lleoliad y tyrbin ddim yn dangos Tŷ Fronwydd.

c. Deddf Cynllunio Gwlad a Thref, 1990. Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref, (Gweithdrefn Rheoli Datblygiad) (Cymru) 2012.

i. Cais NP5/54/18A. Mae'r Awdurdod yn caniatáu Cais ol-weithredol i am newid cladin ar y cefn, codi balconi yn lle'r un presennol. Gornant, Llanfachreth.

9. Materion Ariannol

a. Lythyr (23-12-2014) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am newidiadau i gyflog Clercod Cyngor Lleol ar gyfer 2014/16. Mae'r cyflog yn unol â Chanllawiau Cenedlaethol ar Raddfeydd i Glercod.

Cyflog presennol y Clerc yw £8.835 yr awr ar bwynt SCP17. Mae'r cyflog yn newid i £9.029 yr awr. Cyflog presennol yw £8.835 x 12(oriau) x 12(misoedd) = £1,272.24. Cyflog newydd fydd £9.029 x 12 x 12 = £1,300.18.

Penderfynwyd derbyn y newid.

b. Llythyr (2/2/2015) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu aelodaeth ag Un Llais Cymru o fis Ebrill 2015. Tâl Aelodaeth yw £113.

Penderfynwyd talu'r aelodaeth.

c. Bil (12.2.15) am £42 oddi wrth Mr John D. Robert, Archwiliwr Mewnol, at tâl archwilio cyfrifon y Cyngor 2013-14.

Penderfynwyd talu'r bil.

c. Ceisiadau derbyniwyd am gymorth ariannol 2014 / 2015:

NSPCC, Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015, Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru 2015, Shelter Cymru, Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd, Dawns Gymuned ar Gyfer Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, Cwmni Theatr Bara Caws, Marie Curie Cancer Care, Sioe Frenhinol Cymru - Pwyllgor Apêl Cylch Dolgellau.

ch. Llythyr (4 Rhagfyr 2013) oddi wrth Llywodraeth Cymru. Swm priodol o dan adran 137(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. 'Gwariant Adran 137': Y terfyn ar gyfer 2014-15. Maent yn rhoi gwybod gall cyngor cymuned wario yn 2014-15 hyd at uchafswm o £7.20, am bob etholwr, i sefydliadau sydd angen arian.

Bydd yr uchafswm yn £7.20 x 601 = £4,327.20.

Penderfynwyd rhoi arian i sefydliadau canlynol:

Neuadd Brithdir: £500.00
Neuadd Rhyd y Gorlan: £500.00
Neuadd Llanfachreth: £500.00
Neuadd Rhydymain: £500.00
Ysgol Brithdir: £200.00
Ysgol Llanfachreth: £200.00
Ysgol Rhydymain: £200.00
Clwb Ffermwyr Ifanc Dolgellau: £200.00
Eisteddfod Llanfachreth: £200.00
Llên y Llannau: £50 00
Papur Llafar y Deillion Dolgellau a'r Cylch: £50.00
Ambiwlans Awyr Cymru: £200
Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau 2015 : £200
Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Meirionnydd: £250
Sioe Frenhinol Cymru 2016 - Pwyllgor Apêl Cylch Dolgellau: £250

Cyfanswm = £4,000.00

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29 Ionawr, 2015: £1,134.70.

dd. Balans yn y banc ar 29 Ionawr, 2015: £9,346.21.

10. Unrhyw fater arall

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru bod y gymuned yn anhapus ac anfodlon gyda phwyslais sy'n cael ei roi i glirio coed sydd wedi cau Ffordd Lefel, Hermon. Mae ffordd, R13, drwy'r goedwig yn cael ei defnyddio i osgoi Ffordd Lefel ond tydi'r ffordd ddim digon da gyda niwed i gerbydau sydd yn ei defnyddio. Oherwydd hyn, mae trefniadau wedi cael ei wneud bydd erthygl yn y wasg yn egluro'r oedi sydd i glirio'r ffordd. Penderfynwyd hefyd i roi copi o'r llythyr i Mr Dafydd Ellis-Thomas, A.C.

Llofnod: Dyddiad: